Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban

Cymeradwywyd fersiwn (1) o Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban ar 19 Gorffennaf 2018. Cyhoeddwyd fersiwn Interim o'r polisi hwn ym mis Medi 2017.

Bydd Cymwysterau Cymru yn anelu at adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i polisi@cymwysteraucymru.org.

Cyflwyniad

1. Rydym yn annog unrhyw un sydd â phryderon am y system gymwysterau yng Nghymru i dynnu ein sylw at y pryderon hyn. Mae hyn yn cynnwys cwynion penodol ond hefyd pryderon a gwybodaeth gyffredinol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i lywio ein gwaith, gan gynnwys sut rydym yn monitro a rheoleiddio cyrff dyfarnu cydnabyddedig.

2. Os byddwch yn rhoi gwybod am unrhyw gamweddau y dewch yn ymwybodol ohonynt drwy eich gwaith, gelwir hyn yn 'Chwythu'r Chwiban'[1]. Gallwch godi'r materion hyn gyda ni heb roi gwybod i'ch cyflogwr ac mewn rhai achosion, bydd gennych ddiogelwch cyfreithiol wrth wneud hynny.

3. Mae'r polisi yn darparu dull clir a thryloyw i unrhyw chwythwr chwiban ddatgelu mater i ni. Nod y polisi yw:

   - sicrhau eglurder ar yr hyn rydym yn ei olygu wrth gyfeirio at chwythwr chwiban;
   - egluro'r math o ddatgeliadau sy'n disgyn o fewn cwmpas y polisi hwn; ac
   - amlinellu'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth ymdrin â datgeliadau chwythwr chwiban.

Pwy sy'n chwythwr chwiban?

4. Os oes gennych bryder yr hoffech ei godi gyda ni, yna yn gyffredinol mae dau bolisi y gellir eu hystyried, sef y Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban a'n Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu.

5. Y diffiniad ar gyfer chwythwr chwiban yw unrhyw un sy'n gweithio ar ran:

   i. corff dyfarnu a reoleiddir gennym ('corff dyfarnu');
   ii. Canolfan yng Nghymru sy'n cynnig cymwysterau a reoleiddir gennym ('Canolfan'[2]); neu
   iii. gweithiwr mewn unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â datblygu neu ddyfarnu cymhwyster sy'n berthnasol i gorff dyfarnu a reoleiddir gennym.

---

[1] Mae rhagor o wybodaeth am chwythu'r chwiban ar gael yn https://www.gov.uk/whistleblowing/what-is-a-whistleblower (Saesneg yn unig)

[2] Yn y polisi hwn, mae 'Canolfannau' yn cyfeirio at leoliadau lle mae dysgwyr yn astudio a lle y caiff asesiadau eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

ac sy'n dymuno gwneud datgeliad, ar sail tystiolaeth sydd wedi dod i'w sylw fel rhan o'i waith.

6. Os oes gennych bryderon neu gŵyn am gorff dyfarnu, canolfan neu gymhwyster a gynigir yng Nghymru, ond nad ydych yn gweithio i'r corff dyfarnu, canolfan neu sefydliad perthnasol, ni chewch eich ystyried yn chwythwr chwiban. Cyfeiriwch at ein Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu i gael gwybod sut i gyflwyno cwyn o'r fath a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ymchwilio i'r mater a'i ddatrys.

Datganiadau gwarchodedig

7. Gyda mathau penodol o ddatgeliadau mae gennych hawl i ddiogelwch cyfreithiol. I gael y diogelwch hwn, mae'n rhaid i ddatgeliadau fodloni'r meini prawf ar gyfer 'datgeliadau cymwys' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

8. Ni allwn roi cyngor cyfreithiol mewn amgylchiadau o'r fath. Cyfrifoldeb y gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad yw ceisio gwybodaeth a/neu gyngor cyfreithiol os bydd am gadarnhau ei sefyllfa mewn amgylchiadau o'r fath. Fel man cychwyn, efallai yr hoffai gweithwyr fynd i wefan Public Concern at Work.

Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd

9. Byddwn yn parchu cyfrinachedd unrhyw wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i ni. Pan fydd angen trosglwyddo unrhyw fanylion personol i drydydd parti, byddwn yn cysylltu â chi cyn gwneud hynny. Fel corff cyhoeddus, bydd unrhyw wybodaeth ysgrifenedig a ddelir gennym yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, fodd bynnag byddwn yn ystyried y Ddeddf Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE cyn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol. Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymholiadau Cyffredinol am wybodaeth am sut y byddwn yn prosesu eich data personol a'ch hawliau fel gwrthrych y data.

10. Efallai y bydd amgylchiadau lle, er mwyn i ni fynd ymlaen â'r achos yn effeithiol, y gellir datgelu enw'r chwythwr chwiban neu y gall ddod yn amlwg. Pe byddai amgylchiadau o'r fath yn codi, byddem yn cysylltu â'r chwythwr chwiban i ofyn am eu caniatâd ymlaen llaw. Os na roddwyd caniatâd, yna byddem yn egluro na allwn barhau â'u datgeliad.

11. Gydag achos chwythwr chwiban nad yw'n hysbys byddwn yn ceisio ymdrin â'r datgeliad; fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, gall ein hymchwiliadau, gweithredoedd a'n gallu i ymateb i chwythwyr chwiban gael eu cyfyngu am nad yw'n hysbys pwy sydd wedi gwneud y datgeliad.

Pa ddatgeliadau sy'n disgyn o fewn cwmpas y polisi hwn

12. Byddwn yn derbyn datgeliadau:

i. lle bo'n ymwneud â dylunio, asesu neu ardystio cymhwyster a reoleiddir gan gorff dyfarnu cydnabyddedig;
ii. sy'n ymwneud â methiant corff dyfarnu i gydymffurfio â'n gofynion rheoleiddiol, yn cynnwys camymddwyn a chamweinyddu, gwrthdaro buddiannau neu roi gwybod am ddigwyddiadau;
iii. os caiff y cymhwyster sy'n ffocws i'r datgeliad ei asesu yng Nghymru, neu, os yw'r cymhwyster hwnnw'n cael ei asesu mewn man arall ond y gallai canlyniad hyn gael effaith andwyol ar ddysgwyr yng Nghymru, ac
iv. os cânt eu derbyn yn ysgrifenedig gennym o fewn 12 mis ar ôl dyddiad y digwyddodd y digwyddiad sy'n destun y datgeliad neu'n achos y datgeliad.

13. Mae ein gofynion rheoleiddio ar gyfer cyrff dyfarnu cydnabyddedig wedi'u nodi yn ein dogfennau rheoleiddio. Mae'n rhaid i bob corff dyfarnu gydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol, a gall fod yn rhaid i rai cyrff dyfarnu fodloni gofynion rheoleiddio ychwanegol gan ddibynnu ar y cymwysterau y maent yn eu cynnig. Mae rhestr o'n dogfennau rheoleiddio ar gael yn ein Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddio.

14. Os byddwch yn datgelu gwybodaeth wrthym sy'n gysylltiedig ag arferion Canolfan, gallwn ofyn i'r corff dyfarnu perthnasol ymchwilio os yw'n ymwneud â Chanolfan sy'n cyflwyno eu cymhwyster.

Sut i wneud datgeliad i ni

15. Os ydych yn awyddus i wneud datgeliad, anfonwch e-bost i hysbysu@cymwysteraucymru.org neu ysgrifennwch atom yn:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

Dylech gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn eich datgeliad er mwyn ein helpu i weithredu'n effeithiol. Mae'r wybodaeth y byddem yn ei chroesawu yn cynnwys:

- dweud eich bod yn gwneud datgeliad chwythu'r chwiban;
- beth rydych yn ei ddatgelu;
- ble y digwyddodd;
- pryd y digwyddodd;
- pwy oedd dan sylw / y rhai yr effeithiwyd arnynt;

- unrhyw ddeilliannau yr hoffech eu gweld o ganlyniad i'ch datgeliad; a
- thystiolaeth ategol.

Os bydd y wybodaeth a ddarparwyd i ni yn dda, gallwn gynnal ymchwiliad effeithiol yn well. Dim ond datgeliadau lle gallwn adnabod y corff dyfarnu perthnasol a/neu'r cymhwyster rheoleiddiedig sy'n destun i'r datgeliad, lle y bo hyn yn gymwys, y gallwn eu hystyried.

16. Gallwch anfon cwyn atom yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwch yn derbyn ymateb yn yr iaith a ddefnyddir yn eich gohebiaeth â ni oni bai eich bod yn rhoi gwybod pa un yw'ch dewis iaith.

Y broses ar gyfer ymdrin â datgeliadau

17. Pan fyddwn yn derbyn datgeliad, ein nod yw anfon cydnabyddiaeth o fewn pum diwrnod gwaith i'w dderbyn, lle rhoddwyd manylion cyswllt i ni.

18. Yna byddwn yn dilyn proses sy'n cynnwys dau gam, lle y bo'n briodol, a gaiff ei amlinellu isod.

Asesu Cychwynnol

19. Byddwn yn cynnal asesiad cychwynnol i'r materion a godwyd i gadarnhau a yw'r datgeliad yn un y mae gennym y pwerau i ymdrin ag ef ac sydd o fewn cwmpas y polisi hwn.

20. Pan fyddwn yn penderfynu nad yw'r datgeliad o fewn cwmpas y polisi hwn, byddwn yn rhoi gwybod i'r chwythwr chwiban am y penderfyniad i beidio ag ystyried y datgeliad. Pan fyddwn yn penderfynu bod y datgeliad o fewn y cwmpas, byddwn yn parhau i ymchwilio i'r datgeliad.

21. Ein nod yw cwblhau asesiad cychwynnol o fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad ein llythyr/e-bost cydnabyddiaeth.

Ymchwiliad llawn

22. Pan fyddwn yn penderfynu o'n hasesiad cychwynnol bod y datgeliad yn un y byddwn yn ymdrin ag ef ac y gallwn ymdrin ag ef, byddwn yn ysgrifennu at y chwythwr chwiban yn cadarnhau hyn ac yna byddwn yn cynnal ymchwiliad llawn.

23. Ein nod yw cwblhau ein hymchwiliad o fewn 20 diwrnod gwaith. (Mae hyn yn ychwanegol i'r amser a gymerir ar gyfer yr asesiad cychwynnol). Os na allwn fodloni'r terfyn amser hwn, byddwn, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn rhoi rhesymau ac amserlen ddisgwyliedig i'r chwythwr chwiban ar gyfer ceisio rhoi ymateb sylweddol iddo (pan fydd manylion cyswllt y chwythwr chwiban ar gael i ni).

24. Gallwn ddatrys neu ddod ag unrhyw faterion sydd heb eu datrys i ben drwy fynd i'r afael â'r datgeliad neu ymchwilio iddo neu, gallwn gymryd camau rheoleiddio os bydd ein hymchwiliad yn dod i'r casgliad nad yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am gamau gweithredu posib y gallwn eu cymryd, edrychwch ar Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.

25. Pan fydd gennym fanylion cyswllt ar gyfer y chwythwr chwiban sydd wedi gwneud y datgeliad, byddwn yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad yr ymchwiliad.

26. Gallwn ohirio neu atal ymchwiliad lle y bo posibilrwydd y cynhelir achos cyfreithiol, troseddol neu sifil, a gallwn gyfeirio'r mater i'r cyrff priodol, fel yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron, lle y bo'n briodol.

27. Os bydd unigolyn yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus yn ystod yr ymchwiliad y gallai effeithio ar ganlyniad ein hymchwiliad neu unrhyw achosion troseddol neu sifil, sy'n cynnwys y chwythwr chwiban yn trafod yr ymchwiliad gyda'u cyflogwr, gallwn ohirio neu atal yr ymchwiliad.

Gweithio gydag eraill

28. Efallai y byddwn yn canfod bod y datgeliad o fewn cylch gwaith y corff arall a/neu yn berthnasol iddo, megis;

    - Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
    - Ofqual a/neu'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu
    - Cyngor y Gweithlu Addysg
    - Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Cymru;
    - Yr Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron;
    - Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr;
    - Comisiynydd y Gymraeg; neu
    - Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

    Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn cysylltu â'r corff priodol a/neu byddwn yn rhoi manylion cyswllt cyrff o'r fath i'r chwythwr chwiban.

Camau gweithredu yn dilyn ymchwiliad

29. Os bydd chwythwr chwiban yn anfodlon ar ganlyniad ein hymchwiliad i'w datgeliad gallant ofyn am adolygiad mewnol o'n penderfyniad. Nid yw anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan Cymwysterau Cymru yn awtomatig yn rhoi hawl i uwchgyfeirio i'r cam adolygu. Rhaid gwneud ceisiadau ar sail un o'r canlynol:

    i. ni chafodd ein penderfyniad ei wneud yn unol â pholisi perthnasol, rheoliadau, deddfwriaeth neu wybodaeth arall a gafodd ei chyhoeddi neu ei chyfleu gan Cymwysterau Cymru;
    ii. roedd ein penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn neu anghywir, i'r graddau ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad y gall y penderfyniad fod wedi bod yn wahanol; a
    iii. roedd rhagfarn neu duedd gan un neu fwy o wneuthurwyr penderfyniadau.

30. Lle byddwn o'r farn bod ceisiadau yn afresymol o gyson neu flinderus, byddwn yn egluro pam yn ein hymateb.

31. Caiff yr adolygiad mewnol o'n penderfyniad ei gynnal gan adolygwr/adolygwyr na fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol na'r ymchwiliad. Bydd yr adolygiad mewnol fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn 30 diwrnod o dderbyn cais, a bydd yr adolygwr/adolygwyr mewnol yn rhoi ymateb ysgrifenedig i'r chwythwr chwiban neu'r corff dyfarnu sy'n nodi'r casgliad. Bydd hwn yn cynnwys eu hargymhelliad naill ai i gadarnhau neu adolygu'r penderfyniad.

32. Os bydd chwythwr chwiban yn anfodlon ar yr adolygiad mewnol o'n penderfyniad gallant gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. I gael gwybodaeth am sut i wneud datgeliad, defnyddiwch y manylion cyswllt canlynol:

    - Ar-lein yn http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/Making%20a%20complaint.aspx
    - Dros y ffôn ar 0300 790 0203

    Mae gan yr Ombwdsmon bwerau cyfreithiol i ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n annibynnol ar bob un o gyrff y llywodraeth.